Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Holiadur cyn-arolygiad – Gwasanaethau Ieuenctid: Person ifanc

Rho dy farn i ni am y gwaith ieuenctid rwyt ti'n ei gael. Meddylia am dy brofiadau dy hun ac nid am brofiadau dy ffrindiau. Darllena bob brawddeg a rhoi tic yn y blwch sy'n cyfateb i dy farn. Does dim atebion cywir nac anghywir. I rai cwestiynau, byddi di'n gallu esbonio pam y dewisaist ti'r ateb hwnnw, os hoffet ti wneud hynny. Os nad yw datganiad yn berthnasol i ti, neu nid wyt ti'n gwybod amdano, ticia'r blwch 'Ddim yn gwybod. Ateba'n onest.

Mae dy farn yn bwysig i ni. Byddwn ni'n darllen dy atebion ac yn eu defnyddio i ddysgu rhagor am y gwaith ieuenctid rwyt ti'n ei gael. Hefyd, gallem ni ddefnyddio'r arolygon hyn i'n helpu i ddeall beth yw barn pobl ifanc am waith ieuenctid ar draws Cymru.

Mae'r holiadur yn ddienw. Dydyn ni ddim yn gofyn am dy enw. Mae hyn yn golygu bod dy atebion yn gyfrinachol.

Bydd arolygwyr Estyn:

- yn darllen dy atebion
- byth yn datgelu beth rwyt ti wedi'i ddweud i unrhyw un yn dy ysgol neu leoliad gwaith ieuenctid nac i unrhyw un arall y tu allan i Estyn. Yr unig amser pan y gallem ni rannu gwybodaeth gyda phobl eraill yw os oes gennym ni bryderon am ddiogelwch pobl ifanc.

Rydym ni'n cadw dy atebion yn ddiogel ar systemau cyfrifiadurol Estyn.

Galli di ddysgu rhagor am sut rydym ni'n cadw ac yn defnyddio dy wybodaeth bersonol trwy edrych ar ein hysbysiad preifatrwydd: Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)

1. Dy oedran:

- [ ] 11
- [ ] 12
- [ ] 13
- [ ] 14
- [ ] 15
- [ ] 16
- [ ] 17
- [ ] 18
- [ ] 19
- [ ] 20
- [ ] 20+

2. Rwy'n mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

3. Rwy'n gwerthfawrogi'r cymorth rwy'n ei gael gan weithiwr ieuenctid gyda: (dewisa bob un sy'n berthnasol)

- [ ] Perthnasoedd yn yr ysgol
- [ ] Materion personol
- [ ] Ddim yn gwybod

Hoffet ti ddweud rhagor wrthym ni?

4. Pan mae angen, mae fy ngweithiwr ieuenctid wedi fy nghyfeirio at wasanaethau eraill am gymorth arbenigol.

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ddim yn gwybod

5. Rwy'n teimlo'n ddiogel pan rwy' gyda gweithwyr ieuenctid, ble bynnag y mae'r gwaith ieuenctid yn digwydd

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

Hoffet ti ddweud rhagor wrthym ni?

6. Mae'n ymddangos bod pobl ifanc eraill yn cael profiad da o waith ieuenctid

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

7. Mae pobl ifanc yn cael eu trin gyda pharch gan weithwyr ieuenctid

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

Defnyddia'r lle gwag isod os hoffet ti ddweud rhagor wrthym ni:

8. Rwy'n teimlo fy mod i wedi ennill hyder a datblygu fy hun oherwydd gwaith ieuenctid

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn gwybod

9. Rwy'n teimlo fy mod i wedi datblygu fy hun oherwydd gwaith ieuenctid

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn gwybod

10. Wyt ti fyth yn teimlo dy fod ti'n cael dy fwlio yn y lleoedd lle'r wyt ti'n cael gwaith ieuenctid?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ddim yn gwybod

Defnyddia'r lle gwag hwn os hoffet ti ddweud rhagor wrthym am sut y gwnaeth staff ddelio â hyn. Sylwa y bydd unrhyw beth rwyt ti'n ei ddweud yn cael ei rannu gyda phobl eraill os oes angen. Ni all arolygwyr ymchwilio i faterion unigol, mae'n rhaid i'r ysgol ddelio â'r rhain.

11. Yn fy marn i, mae'r mathau o waith ieuenctid rwy'n eu cael...

- [ ] Yn dda iawn – maen nhw'n addas i fy holl anghenion
- [ ] Yn iawn, ond hoffwn i petai mwy o bethau/pethau gwell yn cael eu cynnig
- [ ] Ddim wir yn iawn i fi
- [ ] Ddim yn gwybod

Hoffet ti ddweud rhagor wrthym ni?

12. Mae fy ngweithgareddau gwaith ieuenctid yn ddiddorol

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

13. Mae gweithwyr ieuenctid yn annog pobl ifanc i barchu pawb, gan ystyried eu hil, rhywedd, rhywioldeb, crefydd, cefndir neu anabledd

- [ ] Ydyn
- [ ] Nac ydyn
- [ ] Ddim yn gwybod

14. Wyt ti'n teimlo dy fod ti'n cael dy drin yn annheg gan dy wasanaeth gwaith ieuenctid am unrhyw rai o'r rhesymau canlynol? (Galli di roi tic mewn mwy nag un blwch)

- [ ] Dy gefndir ethnig
- [ ] Dy grefydd
- [ ] Dy rywedd
- [ ] Dy gyfeiriadedd rhywiol
- [ ] Dy anabledd
- [ ] Dy angen dysgu ychwanegol
- [ ] Yr iaith rwyt ti'n ei siarad gartref
- [ ] Dim un o'r uchod
- [ ] Ddim yn gwybod

Dweda fwy wrthym ni, os hoffet ti wneud hynny:

15. Rwy'n cael fy annog i gymryd rhan mewn pethau na fyddwn i'n gallu eu gwneud fel arall

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ddim yn gwybod

Os hoffet ti wneud hynny, rho enghreifftiau i ni:

16. Mae gweithwyr ieuenctid yn gofyn ein barn am y pethau rydym ni'n eu gwneud gyda nhw

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn gwybod

17. Mae gweithwyr ieuenctid yn gwrando ar ein hawgrymiadau ac yn newid pethau pan fyddwn ni'n gofyn iddynt

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn gwybod

18. Mae fy ngweithwyr ieuenctid yn darparu gwybodaeth i mi am fy nghamau nesaf (er enghraifft yn gysylltiedig â'r ysgol, dewis cymwysterau at y dyfodol, mynd ymlaen i wneud mathau eraill o addysg, hyfforddiant neu waith).

- [ ] Ydyn
- [ ] Nac ydyn
- [ ] Ddim yn gwybod

19. A fyddet ti'n argymell dy weithgarwch gwaith ieuenctid i rywun arall?

- [ ] Byddwn
- [ ] Na fyddwn

Hoffet ti ddweud rhagor wrthym ni?

20. Defnyddia’r lle gwag isod i ddweud unrhyw beth arall wrthym ni am dy brofiadau o waith ieuenctid gyda'r darparwr hwn.

